# Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Astudiaeth llinell sylfaen o brosiectau ynni adnewyddadwy









Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon
Help Wales reduce its Carbon Footprint

Mehefin 2014

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cydweithio â rhanddeiliaid | 5 |
| Y darlun cenedlaethol | 6 |
| Cynnydd yn 2012 | 7 |
| Y darlun lleol | 9 |
| Cynnydd lleol yn 2012 | 11 |
| Crynodeb yn ôl technoleg | 12 |
| Treulio anaerobig | 14 |
| Biomas | 16 |
| Llosgi tanwydd (trydan o fiomas a throi gwastraff yn ynni) | 18 |
| Pympiau gwres | 19 |
| Ynni dŵr | 21 |
| Nwy tirlenwi | 23 |
| Gwynt | 24 |
| Nwy carthion | 27 |
| Paneli solar | 28 |
| Solar thermol | 31 |
| Niwclear | 32 |
| Dull ymchwilio | 33 |
| Geirfa/byrfoddau | 34 |

Lluniau:
Cynllun ynni dŵr, Cwm Elan
© Hawlfraint y Goron (2014) Croeso Cymru

ISBN Print 978 1 4734 1348 1
ISBN Digidol 978 1 4734 1346 7
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21550

# Rhagair



**Mae Ynni Cymru: Newid Carbon Isel yn ein helpu i dywys Cymru tuag at economi carbon isel a chynaliadwy. Rydym wedi cymryd camau breision mewn sawl maes ers ei lansio, ac un o'r pwysicaf o'r rheini yw maes technoleg cynhyrchu ynni carbon isel.**

Mae'r arolwg hwn yn rhan bwysig o'r broses o fesur y newid i gynhyrchu ynni, yn drydan ac yn wres, sy'n gwneud y gorau mewn ffordd gynaliadwy o'n hadnoddau naturiol. Mae'r astudiaeth yn nodi'n glir y sefyllfa o ran cynhyrchu ynni carbon isel ar ddiwedd 2012 a gallwn ei ddefnyddio felly i fesur gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif hefyd faint o garbon deuocsid rydym wedi llwyddo i osgoi ei ollwng o'i gymharu â ffynonellau ynni traddodiadol.

Mae'n dda dweud bod gennym, ar ddiwedd 2012, dros 36,000 o brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar waith yng Nghymru, bob un yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau ein hôl troed carbon. Mae'r prosiectau hyn hefyd, fel y dengys yr adroddiad, yn dod â budd economaidd a chymdeithasol cynaliadwy i'n cymunedau.

Mae'r adroddiad yn dangos ein bod yn datblygu prosiectau bach domestig a chymunedol yn ogystal â phrosiectau cynhyrchu ynni mawr. Mae hyn yn bwysig ac mae'n hanfodol ein bod yn cynhyrchu mwy o ynni trwy'r prosiectau hyn, boed fawr neu fach, os ydym am droi cefn ar ddulliau carbonddwys y gorffennol. Byddaf yn diweddaru'r adroddiad yn y dyfodol er mwyn i ni allu gweld ein cynnydd.

Er bod yr arolwg hwn yn dangos bod camau breision wedi'u cymryd, dengys hefyd bod y cyfraddau'n amrywio ar draws y wlad. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni amcanion Ynni Cymru: Newid Carbon Isel. Her fawr i ni yn awr yw sicrhau bod holl gymunedau Cymru, yn enwedig y rheini yn yr ardaloedd mwy difreintiedig, yn elwa ar y symudiad hwn at economi isel ei charbon.



**Alun Davies AC**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn asesu faint o brosiectau cynhyrchu ynni carbon isel sy'n cael eu cynnal yng Nghymru gan ddefnyddio dulliau arolygu manwl gywir. Amcangyfrifir hefyd faint o ynni ar ffurf trydan a gwres a gynhyrchwyd gan y prosiectau hyn yn 2012 a faint o garbon deuocsid a arbedwyd o'i gymharu ag ynni tanwydd ffosil.**

Bydd yr adroddiad yn hanfodol i fuddsoddwyr o Gymru a thu hwnt a bydd gan gymunedau a pherchenogion tai yng Nghymru sy'n ystyried cynhyrchu eu hynni eu hunain ddiddordeb yn y data a'r astudiaethau achos. Bydd y data o fudd hefyd i'n partneriaid yn y sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda chymunedau er mwyn dangos yr hyn sy'n rhwystro prosiectau carbon isel a sut i chwalu'r rhwystrau hynny.

Mae'r adroddiad yn dangos bod miloedd o gynlluniau bach ar gyfer cynhyrchu ynni 'ar wahân' yng Nghymru er mai'r cynlluniau ynni masnachol mawr sy'n cael sylw'r penawdau. Mae'r prosiectau bach hyn yn defnyddio'n hadnoddau ynni adnewyddadwy i ddod â buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol arwyddocaol i Gymru.

Mae'r arolwg hwn wedi helpu i greu darlun cliriach o ble rydyn ni arni ar ein taith i greu Cymru isel ei charbon. Byddwn yn cynnal yr arolwg eto yn y dyfodol i weld sut mae pethau'n datblygu.

# Cydweithio â rhanddeiliaid

**Cyfrannodd ystod eang o randdeiliaid at ddylunio a chynnal yr arolwg. Mae Llywodraeth Cymru'n diolch iddyn nhw i gyd.**

Y data a'r adroddiad hwn yw cam cyntaf proses i annog cynnal mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae'r arolwg hwn yn rhoi syniad da o ba mor bell rydym wedi mynd a ble y gallwn wneud mwy.

Mae angen i ni nawr drafod yr holl ganfyddiadau hyn â'r rhanddeiliaid sydd â diddordeb, i ddeall yn well beth mae'r canlyniadau yn ei ddweud wrthym, beth sy'n ein rhwystro rhag cynnal prosiectau ynni adnewyddadwy a beth gallwn ni ei wneud i brysuro prosiectau newydd.

**Mae'r adroddiad:**

- yn ddarlun o'r prosiectau ynni adnewyddadwy gafodd eu gosod hyd at 31 Rhagfyr 2012
- yn dangos manylion y prosiectau yn ôl awdurdod lleol a thechnoleg
- yn nodi dros 36,000 o brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru
- yn amcangyfrif bod 2,719GWh o drydan adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu
- yn amcangyfrif bod hynny'n golygu arbed mwy na 2.4m tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn



Tyrbin gwynt, Llantechell, Ynys Môn

# Y darlun cenedlaethol

## Prif ganfyddiadau

Yn 2012, cofnodwyd bod gan Gymru gapasiti i gynhyrchu 1,591MW o ynni carbon isel - 1,042MW o drydan adnewyddadwy, 490MW o niwclear a 58.6MW o wres adnewyddadwy. Mae cofnod bod 36,227 o brosiectau ynni carbon isel ledled y wlad.

Ar ddiwedd 2012, roedd y prosiectau hyn yn cynhyrchu, yn fras, bron 5.5TWh, gan ddarparu 35% o'r trydan a losgir yng Nghymru ac 1% o'r nwy a losgir. Amcangyfrifir bod hyn yn golygu potensial i arbed 2,442,029 tunnell o $CO_2$ bob blwyddyn.

*Crynodeb o ynni carbon isel yng Nghymru, 2012*

| | Trydan adnewyddadwy | Trydan niwclear | Gwres adnewyddadwy |
|---|---|---|---|
| Capasiti (MW) | 1,042.346$MW_e$ (MW-trydan) | 490$MW_e$ | 58.595$MW_{th}$ (MW-thermol) |
| Cynhyrchiant bras (MWh) | 2,719,322 | 2,572,909 | 166,053 |
| Cyfateb i nifer cartrefi | 679,830 | 643,227 | 10,934 |
| Canran o'r hyn a losgir yng Nghymru | 18% | 17% | 1% |
| $CO_2$ a arbedir (tunnel) | 1,236,013 | 1,169,464 | 36,551 |


*Ynni carbon isel yng Nghymru, yn ôl technoleg, 2012*

| Technoleg | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Capasiti ($MW_{th}$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_{th}$) | $CO_2$ a arbedir (tunnell $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Treulio anaerobig | 5 | 0.800 | — | 4,558 | — | 2,072 |
| Biomas | 414 | 0.060 | 38.033 | 421 | 137,577 | 33,382 |
| Llosgi tanwydd | 4 | 69.655 | — | 488,915 | — | 222,226 |
| Pympiau gwres | 1,228 | — | 12.107 | — | 23,348 | 2,123 |
| Ynni dŵr | 163 | 152.217 | — | 273,539 | — | 124,332 |
| Nwy tirlenwi | 23 | 40.048 | — | 193,083 | — | 87,762 |
| Gwynt môr | 2 | 150 | — | 460,215 | — | 209,182 |
| Gwynt tir | 550 | 498.439 | — | 1,168,974 | — | 531,334 |
| Nwy carthion | 11 | 9.974 | 0.1 | 39,344 | 0 | 17,883 |
| Paneli solar | 30,635 | 121.153 | — | 90,272 | — | 41,031 |
| Solar thermol | 3,191 | — | 8.355 | — | 5,127 | 1,239 |
| Niwclear | 1 | 490 | — | 2,572,909 | — | 1,169,464 |
| **Cyfanswm** | **36,227** | **1,532.346** | **58.595** | **5,292,231** | **166,053** | **2,442,029** |

# Cynnydd yn 2012

*Y twf mewn ynni adnewyddadwy dros y cyfnod 2008-2012 (heb gynnwys niwclear a'r rheini sydd heb ddyddiad comisiynu)*

| Blwyddyn | Nifer y prosiectau newydd | Twf mewn capasiti ($MWh_e$) | Twf mewn capasiti ($MWh_{th}$) | Twf mewn cynhyrchiant ($MWh_e$) | Twf mewn cynhyrchiant ($MWh_{th}$) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 251 | 29.374 | 3.133 | 143,968 | 8,411 |
| 2009 | 588 | 181.667 | 7.262 | 471,224 | 21,939 |
| 2010 | 1,920 | 21.092 | 4.332 | 55,328 | 8,408 |
| 2011 | 18,262 | 111.117 | 9.349 | 152,672 | 20,040 |
| 2012 | 14,531 | 127.417 | 29.251 | 216,114 | 93,782 |




## Prif ganfyddiadau

Yn 2012, cafodd 14,531 o brosiectau newydd eu gosod ledled Cymru. O'r rheini, roedd 84% yn brosiectau paneli solar. Rhennir y gweddill rhwng y technolegau eraill: 4.5% pympiau gwres, 7.9% prosiectau solar thermol, 1.8% prosiectau gwynt ar y tir, 1.1% biomas, 0.2% ynni dŵr a 0.007% prosiectau nwy carthion (un prosiect).

Yn 2012, roedd mwyafrif llethol y prosiectau newydd yn rhai domestig - 98.5% o'r holl brosiectau newydd. O'r rhain, cafodd 910 o'r prosiectau eu cofnodi fel tai cymdeithasol neu gymunedol (6% o'r holl osodiadau yn y flwyddyn). Yn ogystal, roedd 33 o brosiectau mewn ysgolion ac roedd 28 o brosiectau newydd mewn sectorau cyhoeddus eraill.

Gwelwyd cynnydd o 10% ym mhotensial prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru i arbed carbon yn 2012.

*Prosiectau newydd yn 2012, yn ôl technoleg*

| Technoleg | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Capasiti ($MW_{th}$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_{th}$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Biomas | 167 | 0.060 | 20.596 | 421 | 80,388 | 19,615 |
| Pympiau gwres | 656 | — | 6.147 | — | 11,855 | 1,078 |
| Ynni dŵr | 26 | 1.183 | — | 2,126 | — | 966 |
| Gwynt tir | 266 | 75.477 | — | 172,049 | — | 78,201 |
| Nwy carthion | 1 | 1.170 | — | 4,615 | — | 2,098 |
| Paneli solar | 12,271 | 49.527 | — | 36,903 | — | 16,774 |
| Solar thermol | 1,144 | — | 2.508 | — | 1,539 | 372 |
| **Cyfanswm** | **14,531** | **127.417** | **29.251** | **216,114** | **93,782** | **119,104** |



Paneli solar, Machynlleth

# Y darlun lleol

**Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau'r astudiaeth ar gyfer yr holl dechnolegau ynni carbon isel fesul awdurdod lleol. Dangosir canlyniadau'r holl brosiectau cynhyrchu ynni carbon isel, gan gynnwys rhai niwclear.**

Mae'r graff yn dangos yn gryno sut mae technolegau cynhyrchu ynni gwahanol yn cyfrannu at y cyfansymiau. I'w gwneud yn haws ei ddarllen, nid ydym wedi cynnwys trydan o niwclear ar y graff.


*Ynni carbon isel yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Capasiti ($MW_{th}$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_{th}$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 1,579 | 7.687 | 1.554 | 14,733 | 4,129 | 7,552 |
| Blaenau Gwent | 712 | 3.992 | 1.363 | 14,588 | 3,573 | 7,478 |
| Bro Morgannwg | 1,113 | 38.676 | 1.077 | 248,241 | 2,995 | 113,477 |
| Caerdydd | 1,949 | 17.218 | 1.383 | 51,056 | 4,556 | 24,258 |
| Caerffili | 1,946 | 4.724 | 2.756 | 3,614 | 9,731 | 3,938 |
| Casnewydd | 1,285 | 16.032 | 0.142 | 34,090 | 149 | 15,517 |
| Castell-nedd Port Talbot | 817 | 80.810 | 0.396 | 265,707 | 811 | 120,914 |
| Ceredigion | 1,544 | 141.727 | 2.640 | 295,287 | 4,821 | 135,122 |
| Conwy** | 847 | 147.860 | 1.625 | 397,032 | 2,716 | 180,933 |
| Gwynedd | 1,681 | 58.413 | 3.551 | 103,820 | 8,313 | 48,843 |
| Merthyr Tudful | 375 | 7.016 | 0.066 | 33,159 | 121 | 15,083 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,271 | 4.620 | 0.458 | 8,278 | 409 | 3,856 |
| Powys | 3,182 | 139.963 | 14.947 | 313,486 | 55,224 | 155,307 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,915 | 56.035 | 6.929 | 134,032 | 22,218 | 66,152 |
| Sir Benfro* | 2,358.5 | 21.533 | 3.993 | 32,334 | 9,398 | 16,676 |
| Sir Ddinbych** | 975 | 94.791 | 0.856 | 261,427 | 1,475 | 119,062 |
| Sir Fynwy | 1,953 | 10.724 | 1.978 | 9,006 | 3,719 | 4,744 |
| Sir Gaerfyrddin* | 2,668.5 | 97.912 | 3.775 | 205,520 | 6,554 | 94,572 |
| Sir y Fflint | 1,485 | 26.252 | 1.123 | 151,315 | 2,173 | 69,190 |
| Torfaen | 1,490 | 4.414 | 1.417 | 3,712 | 4,837 | 2,811 |
| Wrecsam | 3,666 | 14.322 | 4.426 | 37,445 | 13,297 | 20,054 |
| Ynys Môn | 1,349 | 531.717 | 2.143 | 2,667,324 | 4,834 | 1,213,295 |
| Anhysbys | 66 | 5.907 | — | 7,023 | — | 3,192 |
| **Cyfanswm** | **36,227** | **1,532.346** | **58.595** | **5,292,231** | **166,053** | **2,442,029** |

* Prosiect ar y ffin rhwng dau awdurdod lleol. Dim gwybodaeth am y cysylltiad â'r grid.
** Yn cynnwys prosiectau gwynt ar y môr.

Ceir mwy o fanylion ynghylch pa dechnolegau unigol a ddefnyddir ym mhob awdurdod lleol nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

*Capasiti yn ôl Awdurdod Lleol (heb gynnwys Niwclear)*



# Cynnydd lleol yn 2012

*Y cynnydd mewn ynni adnewyddadwy yn 2012, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Capasiti ($MW_{th}$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_{th}$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 505 | 2.296 | 0.449 | 1,725 | 885 | 912 |
| Bro Morgannwg | 409 | 1.466 | 0.788 | 1,125 | 2,516 | 1,097 |
| Caerdydd | 895 | 2.613 | 0.741 | 1,995 | 2,400 | 1,459 |
| Caerffili | 836 | 2.155 | 1.479 | 1,669 | 3,653 | 1,619 |
| Casnewydd | 586 | 2.281 | 0.070 | 2,511 | 43 | 1,156 |
| Castell-nedd Port Talbot | 412 | 1.297 | 0.135 | 977 | 212 | 467 |
| Ceredigion | 551 | 2.403 | 1.397 | 2,187 | 2,803 | 1,529 |
| Conwy | 283 | 0.858 | 0.348 | 728 | 479 | 396 |
| Gwynedd | 503 | 2.889 | 1.176 | 3,627 | 2,369 | 1,996 |
| Merthyr Tudful | 122 | 0.351 | 0.056 | 261 | 103 | 128 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 657 | 1.838 | 0.022 | 1,394 | 28 | 637 |
| Powys | 1,129 | 4.948 | 10.856 | 4,128 | 48,038 | 13,227 |
| Rhondda Cynon Taf | 660 | 35.215 | 1.733 | 80,100 | 5,506 | 37,652 |
| Sir Benfro | 836 | 8.841 | 1.473 | 6,876 | 3,566 | 3,833 |
| Sir Ddinbych | 314 | 1.418 | 0.349 | 1,339 | 576 | 686 |
| Sir Fynwy | 826 | 2.922 | 0.770 | 2,296 | 1,594 | 1,317 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,080 | 39 | 1.6 | 84,640 | 3,080 | 39,027 |
| Sir y Fflint | 457 | 1.663 | 0.466 | 1,327 | 908 | 766 |
| Torfaen | 394 | 2.129 | 1.195 | 1,974 | 4,304 | 1,909 |
| Wrecsam | 2,123 | 5.501 | 2.284 | 8,166 | 6,665 | 5,265 |
| Ynys Môn | 544 | 1.637 | 1.387 | 1,371 | 3,779 | 1,376 |
| Anhysbys | 35 | 2.911 | 0.000 | 4,320 | 0 | 1,963 |
| **Cyfanswm** | **14,531** | **127.417** | **29.251** | **216,114** | **93,782** | **119,104** |

**Mae gwahaniaeth mawr yn nifer y prosiectau newydd fesul awdurdod lleol yn 2012 rhwng y lleiaf (122) a'r mwyaf (2,123), amrediad o 0.35$MW_e$ i 39.0$MW_e$ ar gyfer trydan adnewyddadwy ac o 0.022$MW_{th}$ i 10.856$MW_{th}$ ar gyfer gwres adnewyddadwy.**

Rhan bwysig o'r trafod â rhanddeiliaid ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn fydd deall y rhesymau am y gwahaniaeth. Bydd yn bwysig gwybod a oes ffactorau lleol sy'n lladd cyfleoedd ac a oes camau'n cael eu cymryd i leihau eu heffeithiau.

Rydym am allu nodi arferion da'r awdurdodau lleol lle ceir y nifer mwyaf o brosiectau a'r capasiti cynhyrchu mwyaf i weld a oes gwersi y gallwn eu dysgu a'u rhannu.

# Crynodeb yn ôl technoleg

## Prif ganfyddiadau

Gwelwyd fod 36,227 o brosiectau carbon isel yng Nghymru.


Mae'r mwyafrif, 30,635 ohonynt, yn brosiectau paneli solar, 3,191 yn brosiectau solar thermol a 1,228 yn brosiectau pwmpio gwres.

## Trydan

Cyfanswm y capasiti ar gyfer trydan carbon isel yw 1,532MW, gan olygu felly y gellid cynhyrchu, yn fras, 2,719GWh o drydan adnewyddadwy a 2,573GWh o drydan niwclear y flwyddyn.

O niwclear y daw hanner y potensial cynhyrchu trydan carbon isel. Daw 22% o brosiectau gwynt ar y tir. Y prif gyfranwyr eraill yw gorsafoedd llosgi tanwydd, gwynt ar y môr, trydan dŵr a nwy tirlenwi.

*Capasiti (chwith) a chynhyrchiant (dde) trydan carbon isel, yn ôl technoleg*




## Gwres

Cyfanswm y capasiti ar gyfer gwres carbon isel yw 58.595MW, gyda'r potensial i gynhyrchu 166GWh o wres adnewyddadwy y flwyddyn.

O fiomas y daw dros 80% o'r potensial i gynhyrchu gwres, gyda phympiau gwres yn darparu'r rhan fwyaf o'r gweddill. Er gwaethaf ffactor capasiti isel solar thermol, mae'n dal i gynhyrchu 5.1GWh o wres adnewyddadwy y flwyddyn, 3% o'r cyfanswm

*Capasiti (chwith) a chynhyrchiant (dde) gwres carbon isel, yn ôl technoleg*






Paneli Solar, Clwb Bowlio Coed Talon

# Treulio anaerobig

Ceir cofnod bod pum prosiect treulio anaerobig yng Nghymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 0.8 $MW_e$. Mae pob prosiect mewn awdurdodau lleol gwahanol.

*Prosiectau treulio anaerobig, yn ôl awdurdod lleol*


| Awdurdod Leol | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| Casnewydd | 1 | 0.499 | 2843 | 1,292 |
| Powys | 1 | 0.125 | 712 | 324 |
| Sir Benfro | 1 | 0.000 | 0 | anhysbys |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | 0.016 | 91 | 41 |
| Wrecsam | 1 | 0.160 | 912 | 414 |
| **Cyfanswm** | **5** | **0.800** | **4,558** | **2,072** |

## Prif ganfyddiadau

Nid oes un o'r gweithfeydd treulio anaerobig yng Nghymru'n cael eu rhestru yn adroddiad cynaliadwyedd blynyddol 2011–12 Ofgem o dan orsafoedd llosgi tanwydd, felly nid oes gwybodaeth gadarn am gymysgedd y tanwyddau a ddefnyddir gan weithfeydd treulio anaerobig.

Mae'r data o'r blynyddoedd blaenorol yn dangos cynnydd yn y capasiti treulio anaerobig ers 2009 a disgwyliwn weld rhagor o gynnydd yn y capasiti mewn arolygon yn y dyfodol.

*Tueddiadau o ran cynnal prosiectau treulio anaerobig ('dim' yw'r capasiti thermol ar hyn o bryd)*



## Astudiaeth achos

Mae rhaglen caffael isadeiledd gwastraff £750m Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau lleol i daro targedau dargyfeirio safleoedd tirlenwi'r UE a thargedau ailgylchu cenedlaethol statudol.

O fewn y rhaglen, mae'r buddsoddi mewn treulio anaerobig yn arbed refeniw gan ei fod yn opsiwn cost effeithiol ar gyfer trin gwastraff bwyd gydol oes y cyfleuster. Mae astudiaethau carbon manwl wedi dangos bod treulio anaerobig yn cael effaith fwy positif ar newid hinsawdd na'r un opsiwn trin arall. Yn ogystal ag ynni adnewyddadwy, mae'r broses yn esgor ar weddillion o ansawdd uchel sy'n cael eu defnyddio gan ffermwyr fel biowrtaith rhatach a mwy cynaliadwy.

O'r saith prosiect yn y rhaglen treulio anaerobig ar ôl 2012, mae tri'n weithredol, mae contractau wedi'u rhoi ar gyfer pedwar ac mae dau wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae'r gwaith treulio anaerobig pwrpasol cyntaf i drin gwastraff bwyd trefol yng Nghymru bellach ar waith. Yn Llwyn Isaf, Gwynedd y mae hwnnw, yn cynhyrchu 0.5MW o drydan gwyrdd. Rhagwelir y bydd yr holl gyfleusterau yn cynhyrchu rhyw 7MW o bŵer pan fyddant i gyd yn weithredol erbyn 2016/17.



Tyrbin gwynt, Llantechell, Ynys Môn


# Biomas

Ceir cofnod bod 414 o brosiectau biomas yng Nghymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 38$MW_{th}$ a 0.06$MW_e$. Mae'r prosiectau biomas hyn yn cynhyrchu hyd at, yn fras,138GWh y flwyddyn o wres adnewyddadwy a 0.4GWh o drydan y flwyddyn, gan arbed rhyw 33,400 o dunelli o $CO_2$. Byddai'r nifer cyfatebol o unedau o nwy yn pweru 9,000 o gartrefi yng Nghymru.

*Cynhyrchu biomas, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Leol | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Capasiti ($MW_{th}$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_{th}$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 9 | — | 0.861 | — | 3,058 | 828 |
| Blaenau Gwent | 1 | — | 0.800 | — | 3,156 | 438 |
| Bro Morgannwg | 7 | — | 0.735 | — | 2,422 | 2,4548 |
| Caerdydd | 4 | — | 1.085 | — | 4,150 | 206 |
| Caerffili | 8 | — | 1.943 | — | 8,979 | 578 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | — | 0.155 | — | 420 | 80 |
| Ceredigion | 36 | — | 1.319 | — | 2,836 | 587 |
| Conwy | 9 | — | 0.444 | — | 1,149 | 116 |
| Gwynedd | 42 | — | 2.093 | — | 5,814 | 1,028 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | — | 0.120 | — | 179 | 2 |
| Powys | 93 | — | 11.855 | — | 51,224 | 17,552 |
| Rhondda Cynon Taf | 17 | — | 4.966 | — | 20,388 | 2,025 |
| Sir Benfro | 35 | — | 2.109 | — | 6,923 | 244 |
| Sir Ddinbych | 12 | — | 0.368 | — | 627 | 235 |
| Sir Fynwy | 26 | — | 0.987 | — | 1,990 | 703 |
| Sir Gaerfyrddin | 56 | — | 1.855 | — | 3,447 | 681 |
| Sir y Fflint | 13 | — | 0.626 | — | 1,390 | 190 |
| Torfaen | 9 | 0.060 | 1.216 | 421 | 4,509 | 2,014 |
| Wrecsam | 16 | — | 3.499 | — | 11,921 | 3,562 |
| Ynys Môn | 18 | — | 0.999 | — | 2,994 | 254 |
| **Cyfanswm** | **414** | **0.060** | **38.033** | **421** | **137,577** | **33,382** |

Prosiectau domestig yw'r rhan fwyaf o gyfleusterau biomas. O gofio nifer yr eiddo nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid nwy, bydd cynyddu nifer y prosiectau gyda chymorth cynlluniau fel y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy yn bwysig i Gymru, a disgwyliwn weld y cynnydd hwnnw mewn arolygon yn y dyfodol.






Bwyler biomas

# Llosgi tanwydd *(trydan o fiomas a throi gwastraff yn ynni)*

**Ceir tri gwaith sy'n llosgi biomas eildro i gynhyrchu trydan ac sy'n troi gwastraff yn ynni, ac un gwaith cyd-losgi. Eu capasiti rhyngddynt yw 69.7MW$_e$ ac mae'r pedwar yn hawlio Tystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy. Mae'r prosiectau hyn yn cynhyrchu, yn fras, bron 500GWh o wres adnewyddadwy y flwyddyn, gan arbed rhyw 222,000 tunnell o $CO_2$. Mae hyn gyfwerth â'r trydan a ddefnyddir gan 122,000 o gartrefi yng Nghymru.**

Mae'r gorsafoedd llosgi tanwyddau yn Aber-wysg a Throstre (Mynwy) hefyd yn defnyddio tanwydd biomas gwastraff a glân. Fodd bynnag, dim ond Aber-wysg gafodd ei enwi yn adroddiad cynaliadwyedd 2011–12 Ofgem fel gorsaf llosgi tanwydd, gan losgi 26.5 tunnell o fiscanthus ym mis Ionawr 2012. Mae'r swm hwn o danwydd yn fach iawn o'i gymharu â maint yr orsaf. Ni chafodd Aber-wysg na Throstre eu cynnwys yn y ffigurau ynni adnewyddadwy yn yr adroddiad hwn.

*Cynhyrchwyr llosgi tanwydd a throi gwastraff yn ynni, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Leol | Cynhyrchydd | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | Gorsaf Bŵer Aberddawan – biomas | 1 | 35 | 245,448 | 111,563 |
| Casnewydd | Gorsaf Bŵer Aber-wysg* | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | Western Wood Energy | 1 | 14 | 98,179 | 44,625 |
| Merthyr Tudful | CHP Biomas Merthyr | 1 | 1 | 7,451 | 3,387 |
| Sir Fynwy | Gorsaf Gynhyrchu Trostre* | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | UPM Shotton Paper Boiler | 1 | 19,655 | 137,837 | 62,651 |
| **Cyfanswm** | | **4** | **69.655** | **488,915** | **222,226** |


* Yn llosgi tanwydd ffosil yn bennaf. Ychydig o ynni adnewyddadwy, os o gwbl, gafodd ei gyd-losgi yn 2012. Heb ei gyfrif yn yr adroddiad hwn.

# Pympiau gwres

Ceir cofnod bod 1,228 o brosiectau pympio gwres yng Nghymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 12.1$MW_{th}$. Mae dau draean o'r holl pympiau gwres (802 o bympiau gwres) yng Nghymru yn cymryd eu gwres o'r aer ac aer gwastraff; daw'r gwres ar gyfer traean (425 o bympiau gwres) o'r ddaear. Dim ond un pwmp gwres yng Nghymru sy'n cael ei wres o ddŵr – ac ar Ynys Môn mae hwnnw. Roedd y pympiau gwres hyn yn cynhyrchu, yn fras, dros 23GWh o wres adnewyddadwy, gan arbed rhyw 2,122 tunnell o $CO_2$. Byddai'r swm cyfatebol o nwy yn pweru dros 1,500 o gartrefi yng Nghymru.

*Pympiau gwres yn ôl eu ffynhonnell ac awdurdod lleol*

| | Gwres o'r aer | | Gwres o'r ddaear | | Gwres o ddŵr | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Leol | Nifer y prosiectau | $MW_{th}$ | Nifer y prosiectau | $MW_{th}$ | Nifer y prosiectau | $MW_{th}$ |
| Abertawe | 30 | 0.348 | 11 | 0.142 | — | — |
| Blaenau Gwent | 12 | 0.055 | — | — | — | — |
| Bro Morgannwg | 16 | 0.219 | 5 | 0.057 | — | — |
| Caerdydd | 22 | 0.145 | 2 | 0.024 | — | — |
| Caerffili | 16 | 0.131 | 5 | 0.062 | — | — |
| Casnewydd | 2 | 0.015 | 4 | 0.032 | — | — |
| Castell-nedd Port Talbot | 26 | 0.127 | 5 | 0.057 | — | — |
| Ceredigion | 75 | 0.573 | 33 | 0.319 | — | — |
| Conwy | 20 | 0.233 | 15 | 0.408 | — | — |
| Gwynedd | 97 | 0.893 | 35 | 0.327 | — | — |
| Merthyr Tudful | 2 | 0.061 | — | — | — | — |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 0.006 | 1 | 0.011 | — | — |
| Powys | 97 | 0.983 | 84 | 0.662 | — | — |
| Rhondda Cynon Taf | 43 | 0.410 | 6 | 0.066 | — | — |
| Sir Benfro | 60 | 0.578 | 38 | 0.425 | — | — |
| Sir Ddinbych | 20 | 0.240 | 16 | 0.177 | — | — |
| Sir Fynwy | 58 | 0.547 | 32 | 0.306 | — | — |
| Sir Gaerfyrddin | 55 | 0.600 | 73 | 0.866 | — | — |
| Sir y Fflint | 18 | 0.210 | 23 | 0.154 | — | — |
| Torfaen | 8 | 0.115 | 4 | 0.042 | — | — |
| Wrecsam | 67 | 0.483 | 12 | 0.131 | — | — |
| Ynys Môn | 57 | 0.611 | 21 | 0.218 | 1 | 0.036 |
| **Cyfanswm** | **802** | **7.583** | **425** | **4.487** | **1** | **0.036** |






Cynllun ynni dŵr, Cwm Elan

# Ynni Dŵr

**Ceir cofnod bod 163 o brosiectau ynni dŵr yng Nghymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 152.2MW$_e$. Mae'r prosiectau ynni dŵr hyn yn cynhyrchu hyd at, yn fras, dros 273GWh o drydan adnewyddadwy y flwyddyn, gan arbed rhyw 124,300 tunnell o $CO_2$. Mae hyn gyfwerth â'r trydan a ddefnyddir gan ragor na 68,300 o gartrefi yng Nghymru.**

Nid yw'r gorsafoedd pŵer pwmpio a storio yn Ninorwig (1,728MW) a Ffestiniog (360MW) yng Ngwynedd wedi'u cynnwys yn y ffigurau hyn gan fod agwedd adnewyddadwy'r gorsafoedd hyn yn dibynnu ar sut y cânt eu rheoli ac amodau'r dalgylch. At bwrpas yr adroddiad hwn, nid ydym wedi'u cyfrif fel ffynonellau trydan adnewyddadwy.

Yn ôl adroddiad Mawrth 2013 ar Dariffau Cyflenwi Trydan, roedd 69 o brosiectau ynni dŵr wedi'u rhestru'n hawlio Tariff Cyflenwi Trydan, gyda chapasiti rhyngddynt o 1.15MW. Roedd 22 o brosiectau mewn lleoliadau anhysbys yng Nghymru.

*Cynhyrchwyr ynni dŵr, yn ôl awdurdod lleol (heb gynnwys gorsafoedd pwmpio a storio)*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Capasiti (MW$_e$) | Cynhyrchiant bras (MWh$_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 7 | 0.274 | 492 | 223 |
| Ceredigion | 20 | 55.963 | 100,568 | 45,711 |
| Conwy | 13 | 34.614 | 62,203 | 28,273 |
| Gwynedd | 33 | 48.609 | 87,351 | 39,704 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 0.034 | 62 | 28 |
| Powys | 29 | 6.334 | 11,383 | 5,174 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 0.055 | 99 | 45 |
| Sir Benfro* | 7.5 | 0.168 | 302 | 137 |
| Sir Ddinbych | 10 | 0.577 | 1037 | 471 |
| Sir Fynwy | 5 | 0.180 | 323 | 147 |
| Sir Gaerfyrddin* | 10.5 | 4.655 | 8,366 | 3,802 |
| Torfaen | 1 | 0.029 | 52 | 24 |
| Anhysbys** | 22 | 0.725 | 1,302 | 592 |
| **Cyfanswm** | **163** | **152.217** | **273,539** | **124,332** |

* Prosiect ar y ffin rhwng dau awdurdod lleol. Dim gwybodaeth am y cysylltiad â'r grid.
** Prosiectau Tariff Cyflenwi Trydan â chod Cymru ('WA') yn y cod achredu, ond bod eu lleoliad yn anhysbys. Ni wyddys am brosiectau cyfatebol.

## Astudiaeth achos

Mae tua 14% o dir Cymru yn rhan o Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Arferai'r tir hwnnw gael ei reoli gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, ond bellach Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol amdano.


Yn 2010, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ystyried eu potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy a'r cyfleoedd ar gyfer sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mewn ffordd broactif a chreadigol.

Ym mis Chwefror 2012, gofynnodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru i'r diwydiant ynni dŵr, ymddiriedolaethau datblygu, Cynghorau Cymuned a grwpiau amgylcheddol lleol a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn datblygu cynlluniau ynni dŵr ar ystâd coetiroedd Llywodraeth Cymru. Daeth 303 mynegiant o ddiddordeb o bob rhan o Gymru i law.

Daeth problemau posibl, gan gynnwys sensitifrwydd amgylcheddol a chyfyngiadau ar hawliau tir, yn amlwg yn fuan wedi cynnal arolygon bras. Aed ati i wella'r broses benderfynu trwy ddefnyddio pecynnau cyfreithiol cyson a mwy o dryloywder.

Ym mis Rhagfyr 2013, roedd Rhaglen Ynni Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio ar 18 darpar gynllun. Mae'r trafodaethau cyntaf ar gytundebau cyfreithiol eisoes wedi dechrau ac mae 6 chynllun wedi cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio a thrwyddedau codi dŵr. Yn ôl ein trafodaethau â datblygwyr, mae 176 o safleoedd o dan ystyriaeth.

Mae tri phrosiect ynni dŵr yn arbennig wedi cynyddu'r capasiti, sef Llyn Celyn (4.5MW yn 2004), Llyn Brianne (4.6MW yn 2007) a Gorsaf Bŵer Rheidol (41MW yn 2009).



# Nwy tirlenwi

**Ceir cofnod bod 23 o brosiectau nwy tirlenwi yng Nghymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 40MW$_e$. Mae'r prosiectau nwy tirlenwi hyn yn cynhyrchu, yn fras, dros 193GWh o drydan adnewyddadwy y flwyddyn, gan arbed rhyw 87,760 tunnell o $CO_2$. Mae hyn gyfwerth â'r trydan a ddefnyddir gan fwy na 48,270 o gartrefi yng Nghymru.**

Mae capasiti cynhyrchu trydan nwy tirlenwi wrthi'n crebachu gan fod y swm gwastraff sy'n cael ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi yn lleihau sy'n golygu bod llai o nwy'n gallu cael ei gynhyrchu.

*Nifer cynhyrchwyr nwy tirlenwi, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Capasiti (MW$_e$) | Cynhyrchiant bras (MWh$_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 1 | 1.650 | 7,955 | 3,616 |
| Blaenau Gwent | 1 | 2.650 | 12,776 | 5,807 |
| Caerdydd | 2 | 4.970 | 23,962 | 10,891 |
| Casnewydd | 1 | 2.000 | 9,643 | 4,383 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 | 3.640 | 17,550 | 7,977 |
| Conwy | 1 | 2.880 | 13,885 | 6,311 |
| Gwynedd | 1 | 0.300 | 1,446 | 657 |
| Merthyr Tudful | 2 | 5.207 | 25,105 | 11,411 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 1.170 | 5,641 | 2,564 |
| Powys | 1 | 1.025 | 4,942 | 2,246 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 | 3.300 | 15,910 | 7,232 |
| Sir Benfro | 1 | 2.166 | 10,443 | 4,747 |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | 1.370 | 6,605 | 3,002 |
| Sir y Fflint | 2 | 1.920 | 9,257 | 4,208 |
| Wrecsam | 3 | 5.360 | 25,842 | 11,746 |
| Ynys Môn | 1 | 0.440 | 2,121 | 964 |
| **Cyfanswm** | **23** | **40.048** | **193,083** | **87,762** |

# Gwynt

**Ceir cofnod bod 550 o brosiectau gwynt ar dir Cymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 498.5MW$_e$. Ceir cyfanswm o 1,073 o dyrbinau ar dir Cymru, ac mae 92% o'r safleoedd yn safleoedd un tyrbin. Mae ynni'r gwynt ar y tir yn cynhyrchu, yn fras, dros 1,169GWh o drydan adnewyddadwy y flwyddyn, gan arbed rhyw 531,300 tunnell o $CO_2$. Mae hyn gyfwerth â'r trydan a ddefnyddir gan bron 300,000 o gartrefi yng Nghymru.**

Er bod capasiti'r ynni gwynt ar y môr fel arfer yn cael ei gyfrif ar lefel y Deyrnas Unedig, mae cyfran arwyddocaol ohono'n cael ei gynhyrchu oddi ar arfordir Cymru. Unwaith y bydd Gwynt y Môr yn gwbl weithredol, bydd y tair fferm wynt yn cynhyrchu dros draean o angen domestig blynyddol Cymru am drydan.


*Gwynt ar y tir, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Nifer y tyrbinau | Capasiti (MW$_e$) | Cynhyrchiant bras (MWh$_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 4 | 4 | 0.340 | 742 | 337 |
| Blaenau Gwent | 2 | 2 | 0.501 | 1,185 | 538,672 |
| Bro Morgannwg | 5 | 5 | 0.095 | 125 | 57 |
| Caerdydd | 5 | 5 | 2.441 | 5,629 | 2,559 |
| Caerffili | 9 | 12 | 0.165 | 217 | 99 |
| Casnewydd | 4 | 6 | 7.110 | 16,818 | 7,644 |
| Castell-nedd Port Talbot | 5 | 32 | 57.459 | 135,958 | 61,797 |
| Ceredigion | 49 | 121 | 81.090 | 191,237 | 86,923 |
| Conwy | 15 | 25 | 18.386 | 43,340 | 19,699 |
| Gwynedd | 41 | 44 | 5.223 | 11,497 | 5,226 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5 | 5 | 0.053 | 70 | 32 |
| Powys | 108 | 327 | 122.828 | 288,939 | 131,331 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 48 | 48.576 | 114,965 | 52,255 |
| Sir Benfro | 80 | 83 | 5.125 | 11,102 | 5,046 |
| Sir Ddinbych | 22 | 49 | 31.064 | 73,045 | 33,201 |
| Sir Fynwy | 23 | 23 | 0.456 | 600 | 273 |
| Sir Gaerfyrddin | 72 | 116 | 76.029 | 178,654 | 81,204 |
| Sir y Fflint | 18 | 18 | 0.226 | 298 | 135 |
| Torfaen | 4 | 4 | 0.030 | 39 | 18 |
| Wrecsam | 10 | 10 | 0.683 | 898 | 408 |
| Ynys Môn | 40 | 110 | 38.217 | 90,014 | 40,914 |
| Anhysbys | 24 | 24 | 2.340 | 3,603 | 1,638 |
| **Cyfanswm** | **550** | **1,073** | **498.439** | **1,168,974** | **531,334** |

*Gwynt ar y môr, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Cynhyrchydd | Nifer y prosiectau | Nifer y tyrbinau | Capasiti ($MW_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | $CO_2$ a arbedir (t CO2 y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Môr (Conwy) | Fflatiau'r Rhyl | 1 | 25 | 90 | 276,129 | 125,509 |
| Môr (Sir Ddinbych) | North Hoyle | 1 | 30 | 60 | 184,086 | 83,673 |
| **Cyfanswm** | | **2** | **55** | **150** | **460,215** | **209,182** |

Mae nifer y prosiectau sy'n cael eu gosod wedi cynyddu bob blwyddyn. Daeth y naid mwyaf mewn capasiti wedi comisiynu'r fferm wynt 45 MW 30 tyrbin yng Nghefn Croes, Ceredigion. Gwelwyd cynnydd hefyd yn sgil comisiynu'r fferm wynt 34 MW, 15 tyrbin ym Mynydd y Betws, Sir Gaerfyrddin yn 2012, a ffermydd gwynt Ffynnon Oer a gomisiynwyd yn 2005 a Maes Gwyn a gomisiynwyd yn 2011, y ddwy yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gan fod llawer o brosiectau gwynt mawr wedi'u comisiynu ers mis Rhagfyr 2012 a bod cynlluniau mawr eraill wedi cael caniatâd ac ar fin cael eu hadeiladu, gallwn ddisgwyl gweld cynnydd mawr yng nghapasiti cynhyrchu'r gwynt yn arolygon y dyfodol.



## Astudiaeth achos

Mae cynllun Mynydd y Gwrhyd, 20 milltir i'r gogledd o Abertawe, yn fferm wynt gymunedol a ddatblygwyd gyda chymorth rhaglen Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru. Is-gwmni masnachol yw'r cynllun sy'n eiddo i Awel Aman Tawe, gyda'r elw'n mynd yn ôl i'r gymuned leol ar gyfer prosiectau cynhyrchu carbon isel. Bydd gan y fferm wynt ddau dyrbin, 2MW yr un.

Cafwyd grant gan Ynni'r Fro ar gyfer y cynllun tuag at fonitro cyflymder y gwynt, cyngor cyfreithiol ar lesio'r tir a chyngor gan Swyddog Datblygu ar sut i fynd â'r prosiect yn ei flaen. Bydd y fferm wynt 4MW:

- Yn cynhyrchu tua 10,000MWh y flwyddyn;
- Yn arbed 9,000 tunnell o $CO_2$ y flwyddyn;
- Yn darparu o leiaf £1miliwn y flwyddyn o incwm trwy werthu trydan;
- Yn cynhyrchu ynni glân ar gyfer yr hyn sy'n cyfateb i 2,000 o gartrefi;
- Yn creu 7 swydd newydd o fewn Awel Aman Tawe, mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf;
- Yn creu rhagor o swyddi trwy gontractau adeiladu gyda chyflenwyr lleol;
- Yn datblygu rhaglen addysgol i fonitro'r fferm wynt gyda 3 ysgol uwchradd ac 8 ysgol gynradd leol;
- Yn darparu cyllid sbarduno ar gyfer cronfa ynni leol i dalu am waith ynni adnewyddadwy ac arbed ynni ar hyd at 25 o gartrefi'r flwyddyn, gan dargedu cartrefi tlawd o ran tanwydd.

# Nwy carthion

Ceir cofnod bod 11 o brosiectau nwy carthion yng Nghymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 9.97$MW_e$. Mae prosiectau nwy carthion yn cynhyrchu, yn fras, bron 40GWh o drydan adnewyddadwy y flwyddyn, gan arbed rhyw 17,900 tunnell o $CO_2$. Mae hyn gyfwerth â'r trydan a ddefnyddir gan bron 10,000 o gartrefi yng Nghymru.

*Prosiectau nwy carthion, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 1 | 0.560 | 2,209 | 1,004 |
| Caerdydd | 2 | 4.425 | 17,455 | 7,934 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 2.962 | 11,684 | 5,311 |
| Gwynedd | 1 | 0.105 | 414 | 188 |
| Powys | 1 | 0.100 | 394 | 179 |
| Sir Ddinbych | 2 | 0.285 | 1,124 | 511 |
| Sir Fynwy | 1 | 0.177 | 698 | 317 |
| Sir y Fflint | 1 | 0.190 | 749 | 341 |
| Wrecsam | 1 | 1.170 | 4,615 | 2,098 |
| **Cyfanswm** | **11** | **9.974** | **39,344** | **17,883** |

## Astudiaeth achos

Mae Dŵr Cymru wedi gosod dau fiodreulydd modern yng Nghymru, y naill yn eu gwaith trin yng Nghaerdydd a'r llall ym Mort Talbot. Mae ganddynt drydydd yn Henffordd. Mae'r biodreulwyr yn gweithio ar wres mawr i ryddhau methan o slwtsh carthion. Llosgir y methan a gynhyrchir ar y safle i redeg peiriannau trin dŵr, gan arbed arian i Dŵr Cymru a'u cwsmeriaid a chan leihau eu hôl troed carbon. Ar ôl buddsoddi £75m yn y tri biodreulydd, mae Dŵr Cymru'n amcangyfrif eu bod yn arbed rhyw £8m y flwyddyn yn eu biliau ynni.

# Paneli Solar

## Prif ganfyddiadau

Ceir cofnod bod rhagor na 30,000 o brosiectau paneli solar yng Nghymru; mae ganddynt gapasiti rhyngddynt o 121.15MW$_e$. Mae paneli solar yn cynhyrchu, yn fras, dros 90GWh o drydan adnewyddadwy y flwyddyn, gan arbed rhyw 41,000 tunnell o $CO_2$. Mae hyn gyfwerth â'r trydan a ddefnyddir gan fwy na 22,500 o gartrefi yng Nghymru. Mae paneli solar yn cyfrannu 11% o'r capasiti trydan adnewyddadwy (heb gynnwys niwclear). Fodd bynnag, gan fod gan Baneli Solar ffactor llwytho isel (h.y. maent yn cynhyrchu llai na'r hyn y gallent ei gynhyrchu), dim ond 3.3% o'r trydan adnewyddadwy a gynhyrchir ganddynt.

*Prosiectau Paneli Solar, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Capasiti (MW$_e$) | Cynhyrchiant bras (MWh$_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Abertawe | 1,438 | 5.137 | 3,828 | 1,740 |
| Blaenau Gwent | 405 | 0.840 | 626 | 285 |
| Bro Morgannwg | 1,017 | 3.581 | 2,668 | 1,213 |
| Caerdydd | 1,854 | 5.382 | 4,010 | 1,823 |
| Caerffili | 1,575 | 4.559 | 3,397 | 1,544 |
| Casnewydd | 1,257 | 6.423 | 4,786 | 2,175 |
| Castell-nedd Port Talbot | 748 | 2.475 | 1,844 | 838 |
| Ceredigion | 1,173 | 4.674 | 3,482 | 1,583 |
| Conwy | 624 | 1.979 | 1,475 | 670 |
| Gwynedd | 1,329 | 4.176 | 3,112 | 1,414 |
| Merthyr Tudful | 320 | 0.809 | 603 | 274 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,195 | 3.363 | 2,506 | 1,139 |
| Powys | 2,276 | 9.550 | 7,116 | 3,234 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,319 | 4.104 | 3,058 | 1,390 |
| Sir Benfro | 1,822 | 14.075 | 10,487 | 4,767 |
| Sir Ddinbych | 869 | 2.865 | 2,135 | 970 |
| Sir Fynwy | 1,760 | 9.911 | 7,385 | 3,357 |
| Sir Gaerfyrddin | 2,268 | 15.842 | 11,804 | 5,365 |
| Sir y Fflint | 1,358 | 4.261 | 3,175 | 1,443 |
| Torfaen | 1,450 | 4.296 | 3,201 | 1,455 |
| Wrecsam | 3,484 | 6.949 | 5,178 | 2,353 |
| Ynys Môn | 1,074 | 3.060 | 2,280 | 1,036 |
| Anhysbys* | 20 | 2.843 | 2,118 | 963 |
| **Cyfanswm** | **30,635** | **121.153** | **90,272** | **41,031** |


* Data cynradd â lleoliad anhysbys neu brosiectau Tariff Cyflenwi Trydan â chod Cymru ('WA') yn y cod achredu, ond bod eu lleoliad yn anhysbys. Ni wyddys am brosiectau cyfatebol.

## Tueddiadau gyda Phaneli Solar a'r Tariff Cyflenwi Trydan

Cafwyd pedwar uchelbwynt o ran y ffigurau misol ar gyfer prosiectau paneli solar ers canol 2011 (ddiwedd 2011, yn union cyn Mawrth 2012, Gorffennaf 2012 a Hydref 2012). Mae perthynas agos rhwng pob pegwn a'r newidiadau yn y Tariff Cyflenwi Trydan.

Mae ffigurau misol gosod Paneli Solar yn dangos fod perthynas agos hefyd rhwng y newid yn y capasiti a'r cynnydd yn nifer y prosiectau. Hyd at ddiwedd 2012, ni fu digon o brosiectau solar mawr yng Nghymru i effeithio ar y duedd hon, er y disgwylir i hyn newid yn y dyfodol wrth i ffermydd solar mawr gael eu datblygu.

*Ffigurau gosod Paneli Solar misol (yn ôl dyddiad comisiynu)*



## Astudiaeth achos — Cyngor Sir Wrecsam

Mae prosiect mawr gan Gyngor Wrecsam ar y cyd â H T Forrest a Sharp Solar wedi gosod paneli solar ar ryw 3,000 o dai cymdeithasol.

Mae'r prosiect yn esgor ar lawer o fanteision:

- incwm am 25 mlynedd i'r Cyngor o'r Tariff Cyflenwi Trydain, ac elw masnachol;
- lleihau biliau tanwydd tenantiaid tai cymdeithasol a thaclo tlodi tanwydd;
- gostyngiad o 3,000 tunnell y flwyddyn yn yr ôl troed carbon;
- buddiannau economaidd lleol trwy greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi – roedd crefftwyr a busnesau lleol yn amlwg yn y gadwyn gyflenwi;
- buddiannau cymdeithasol trwy gynyddu perthnasedd arbed ynni a phaneli solar ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol yr awdurdod a'r gymuned ehangach;
- sbarduno mwy o fuddsoddi mewn prosiectau cynhyrchu ynni ac arbed ynni yn y sir.



Biodreulydd, Holt, Wrecsam

# Solar thermol

## Prif ganfyddiadau

Mae dros 3,148 o'r prosiectau'n rhai domestig, a chadarnhawyd bod dros eu hanner wedi'u gosod ar dai cymdeithasol. Rhestrir 30 o brosiectau fel 'sectorau cyhoeddus arall' a chafodd 12 eu datblygu gan gymunedau neu elusennau.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y prosiectau ac yng nghapasiti solar thermol rhwng 2010 a 2012. O'r 2,091 o brosiectau a ddaeth i gomisiwn yn y ddwy flynedd, roedd 1,291 ar dai cymdeithasol.

Ceir cofnod bod 3,191 o brosiectau solar thermol yng Nghymru, a chanddynt gapasiti rhyngddynt o 8.4$MW_{th}$. Mae'r prosiectau solar thermol hyn yn cynhyrchu, yn fras, dros 5.1GWh o wres adnewyddadwy y flwyddyn, gan arbed rhyw 1,239 tunnell o $CO_2$. Mae hyn gyfwerth â'r nwy a ddefnyddir gan ragor na 340 o gartrefi yng Nghymru.

*Prosiectau solar thermol, yn ôl awdurdod lleol*

| Awdurdod Lleol | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_{th}$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_{th}$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 85 | 0.203 | 125 | 30 |
| Blaenau Gwent | 291 | 0.508 | 312 | 75 |
| Bro Morgannwg | 62 | 0.066 | 40 | 10 |
| Caerdydd | 58 | 0.128 | 79 | 19 |
| Caerffili | 333 | 0.621 | 381 | 92 |
| Casnewydd | 16 | 0.095 | 58 | 14 |
| Castell-nedd Port Talbot | 20 | 0.057 | 35 | 8 |
| Ceredigion | 158 | 0.429 | 263 | 64 |
| Conwy | 149 | 0.540 | 331 | 80 |
| Gwynedd | 102 | 0.238 | 146 | 35 |
| Merthyr Tudful | 50 | 0.004 | 3 | 655 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 63 | 0.321 | 197 | 48 |
| Powys | 492 | 1.346 | 826 | 200 |
| Rhondda Cynon Taf | 522 | 1.487 | 913 | 220 |
| Sir Benfro | 314 | 0.881 | 540 | 131 |
| Sir Ddinbych | 23 | 0.071 | 43 | 10 |
| Sir Fynwy | 48 | 0.138 | 85 | 20 |
| Sir Gaerfyrddin | 132 | 0.454 | 279 | 67 |
| Sir y Fflint | 51 | 0.133 | 82 | 20 |
| Torfaen | 14 | 0.044 | 27 | 7 |
| Wrecsam | 72 | 0.312 | 192 | 46 |
| Ynys Môn | 136 | 0.279 | 171 | 41 |
| **Cyfanswm** | **3,191** | **8.355** | **5,127** | **1,239** |

# Niwclear

## Prif ganfyddiadau

Saif Atomfa Niwclear Wylfa ychydig i'r gorllewin o Fae Cemaes ar Ynys Môn. Ceir ynddo ddau adweithydd Magnox 490 MW, "Adweithydd 1" ac "Adweithydd 2" a adeiladwyd ym 1963 gan ddod yn weithredol ym 1971. Daeth oes Adweithydd 2 i ben yn 2012.

Yn 2012, ffactor llwytho Wylfa 1 oedd 59.9% a chynhyrchodd ryw 2,573GWh o drydan carbon isel, gan arbed gollwng rhyw 1,169,464 tunnell o $CO_2$. Oherwydd y ffactor llwytho uchel, mae hyn gyfwerth â'r trydan a ddefnyddir gan 643,200 o gartrefi yng Nghymru.

Mae Ynni Cymru – Newid Carbon Isel yn enwi ynni niwclear fel technoleg cynhyrchu trydan carbon isel ond ddim fel un adnewyddadwy.

*Gorsafoedd cynhyrchu niwclear*

| Awdurdod Lleol | Cynhyrchydd | Nifer y prosiectau | Capasiti ($MW_e$) | Cynhyrchiant bras ($MWh_e$) | $CO_2$ a arbedir (t $CO_2$ y flwyddyn) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Adweithydd Wylfa 1 | 1 | 490 | 2,572,909 | 1,169,464 |

# Dull ymchwilio

Cafodd Regen SW eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddyfeisio dull ymchwilio i gyfri'r prosiectau ynni adnewyddadwy sydd wedi'u gosod yng Nghymru, ac i gasglu'r canfyddiadau o'r arolwg cyntaf.

Roedd y dull ymchwilio a ddatblygwyd gan Regen SW yn cynnwys:

- darganfod, trefnu a dilysu cofnodion o setiau data;
- cynnal gweithdy gyda rhanddeiliaid lleol i ddatblygu'r arolwg;
- cynnal arolwg ledled Cymru i gael hyd i'r holl brosiectau ynni adnewyddadwy;
- dadansoddi'r data i wneud yn siŵr ein bod yn cael trosolwg cenedlaethol cadarn a data lleol penodol.

Dyma rai o'r rhanddeiliaid y cafwyd atebion ganddynt:

- Cwmnïau dŵr
- Contractwyr gwastraff
- Awdurdodau lleol
- Cymdeithasau tai
- Gosodwyr a datblygwyr prosiectau ynni adnewyddadwy
- Mudiadau o'r trydydd sector gan gynnwys elusennau a grwpiau cymunedol

Dyma rai o'r setiau data gafodd eu dilysu a'u cyfuno â chanfyddiadau'r arolwg:

- Tariff Cyflenwi Trydan
- Cynllun Tystysgrifau Microgynhyrchu
- Y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy
- Taliad y Premiwm Gwres Adnewyddadwy
- Rhaglen Adeiladu Carbon Isel
- Atlas Ynni Cymru Prifysgol Caerdydd

# Geirfa / byrfoddau

| | |
|---|---|
| $MW_e$ | Mega Watt o gapasiti trydan |
| $MW_{th}$ | Mega Watt o gapasiti gwres |
| Cynhyrchiant bras | Amcangyfrif o'r ynni a gynhyrchir trwy luosi'r capasiti ag amcangyfrif o'r ffactor llwytho |
| MWh | Mega Watt awr o gynhyrchiant |
| GWh | Giga Watt awr o gynhyrchiant (= 1,000MWh) |
| TWh | Tera Watt awr o gynhyrchiant (= 1,000GWh, neu 1,000,000MWh) |
| $CO_2$ | Allyriannau carbon deuocsid (mewn tunelli metrig) |

